

Croeso

Wrth i ni gyrraedd y diwrnod hiraf a'r haul yn dechrau tywynnu, rydyn ni am oleuo'ch diwrnod ymhellach drwy rannu llawer o newyddion gwych am y cynnydd positif rydyn ni wedi'i wneud wrth gyflenwi prosiect Ôl-osod er mwyn Optimeiddio.

Mae partneriaid prosiect Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yn parhau i gyrraedd pob carreg filltir fawr:

- Mae IESs yn parhau i gael eu gosod
- Mae gennym fwy na 100 o fusnesau a masnachwyr yng Nghymru sydd wedi cofrestru i ddysgu sut mae cymryd rhan mewn cyflenwi'r prosiect
- Mae ein hastudiaeth achos gyntaf o breswylwyr ac aelodau tîm wedi cael ei fflmio gyda Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Clwyd Alyn sy'n bartner i ni
- Mae'r Cynulliad Hinsawdd wedi lansio eu hadroddiad ac ymddangos ar Sharp End ITV

Mae wedi bod yn fis prysur felly darllenwch ymlaen i ddysgu mwy ...



Hefyd yn y rhifyn hwn

- Rydyn ni wedi cael sylw mewn nifer o erthyglau newyddion cyffrous
- CE Wales yn cynnal digwyddiad sy'n cyflwyno Ôl-osod er mwyn Optimeiddio i fwy na 70 fusnesau a masnachwyr Cymru
- Cyhoeddi episod 2 a 3 BetaTalk o'n podlediad noddedig
- RSAW yn cyhoeddi eu digwyddiad DPD terfynol

Economi Sylfaenol

Cyhoeddi adroddiad ac argymhellion Cynulliad Hinsawdd Blaenau Gwent

Mae grŵp o bartneriaid prosiect Ôl-osod er mwyn Optimeiddio bellach wedi cyhoeddi eu hadroddiad sy'n cynnwys argymhellion o Gynulliad Hinsawdd diweddar Blaenau Gwent – yr un cyntaf o'i fath i gael ei gynnal yng Nghymru.

Cafodd y Cynulliad ei gynnal yn rhithiol dros ddau benwythnos ym Mawrth gan ddod â mwy na 40 o bobl, wedi'u hap-ddethol ac yn cynrychioli'r fwrdeistref sirol yn ddemograffiaidd, i ystyried y cwestiwn pwysig iawn: "Beth ddylen ni ei wneud ym Mlaenau Gwent i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd mewn ffordd sy'n deg ac yn gwella safonau byw i bawb?"

Mabwysiadodd y Cynulliad Hinsawdd bum argymhelliaid mewn perthynas â thrafnidiaeth, tai a mannau gwyrdd, a gafodd eu cefnogi gan fwy nag 80%. Cafodd yr argymhellion hyn eu llunio gan aelodau'r Cynulliad eu hun, wedi'u llywio gan gyflwyniadau gan arbenigwyr maes newid yn yr hinsawdd.



Gallwch chi weld yr argymhellion a'r adroddiad llawn [yma](#).

Cafodd yr adroddiad hwn ei ddrafftio gan Cynnal Cymru a Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru, dau o'r partneriaid trefnu tu ôl i Gynulliad Hinsawdd Blaenau Gwent.

Ym Medi y llynedd datganodd y Cyngor Argyfwng Hinsawdd yn swyddogol ym Mlaenau Gwent.

Yr wythnos nesaf, bydd gan bob cynghorydd bwrdeistref y cyfle i glywed oddi wrth aelodau Cynulliad Hinsawdd Blaenau Gwent am eu hargymhellion ac ystyried sut i symud yr agenda hon yn ei blaen.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent, sy'n dod â sefydliadau ynghyd gan gynnwys y cyngor, iechyd, tai, yr heddlu a'r sector gwirfoddol, wedi

ymrwymo i roi ymateb ysgrifenedig i'r argymhellion hyn yn eu cyfarfod nesaf yng Ngorffennaf.

Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad hirdymor partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i Flaenau Gwent, gan addo chwarae ei ran lawn mewn cymryd camau i gyflawni targed Cymru o Sero Net allyriadau erbyn 2050.

Cyfleoedd Sero Net

Mae adnewyddu cartrefi Cymru nid yn unig yn gynllun uchelgeisiol gan Lywodraeth Cymru i roi cartrefi ynni-ffeithlon i bobl a symud tuag at sero net, mae'n gyfle i'r diwydiant adeiladu recriwtio, hyfforddi a chymryd rhan mewn polisi radicalaidd.

Ddydd Mawrth 8 Mehefin, cynhaliodd Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru (CEWales) ail ddigwyddiad eu rhaglen Construction Opportunity Knocks; Optimised Retrofit - recruit, train and equip Welsh construction.

Esboniodd y digwyddiad pam mae datgarboneiddio cartrefi Cymru mor bwysig a sut allai'r cam cyntaf hwn yn y daith effeithio ar weddnewid 1.4 miliwn arall o gartrefi yng Nghymru i Sero Net.

Mae'n fan cychwyn beth fydd yn ymgymieriad anferth a hanfodol a gaiff ei arwain gan weithlu creiddiol adeiladwaith Cymru: adeiladwyr bach, plymwyr, trydanwyr a chyflenwyr adeiladwyr.

Cafodd y digwyddiad ei fynychu gan fwy nag 80 o bobl ac ysbrydolodd y siaradwyr ddigonedd o gwestiynau a thrafodaeth, yn fwyaf nodedig, Paul Gibson, Cyfarwyddwr Gibson STS Ltd, a roddodd gyflwyniad ar beth mae bod yn rhan o Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yn ei olygu am fenter fach neu ganolig.

Ynndo, sicrhodd Paul SME's a masnachwyr, gan ddweud 'I'r holl fusnesau bach neu fentrau un person, mae'n bwysig nodi eich bod chi'n uwchraddio sgiliau ac yn ailhyfforddi yn ôl eich cyflymder eich hun pan

allwch chi ei fforddio, ond mae'n rhaid i ni i gyd ddechrau arallgyfeirio ein busnesau, a dyma o bosib eich man cychwyn.

Nid y dyfodol yw effeithlonrwydd ynni, mae'n digwydd nawr. Dyma'r cyfle perffaith i gymryd rhan, cofrestrwch nawr!"

Felly, os ydych chi'n fenter fach neu ganolig neu'n fasnachwr sy'n awyddus i gymryd rhan, cewch chi gofrestru'ch diddordeb [yma](#) neu ein dilyn ni ar [Facebook](#) am newyddion diweddaraf y prosiect a gwybodaeth bellach.




Podlediad BetaTalk

Rydyn ni erbyn hyn wedi cyrraedd episod o Dymor 4 [podlediad rhagorol BetaTalk](#), sy'n cael ei gyflwyno gan y dylanwadwr diwydiant Nathan Gambling.

Fel rhan o'n cenhadaeth i ledu'r gair am Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (yn enwedig ymhlith cyflenwyr a masnachwyr y dyfodol) – rydyn ni'n noddi Tymor 4 y podlediad, sy'n edrych ar faterion ar y llawr mewn perthynas â thechnoleg, sgiliau a hyfforddiant, gyda pheirianwyr ledled y wlad.

Felly, gwnewch banded i'ch hunan a mwynhewch wrando arnyn nhw. Mae dolenni isod.



Episod 1



To Heat Pump
Hull & Back



Episod 2



Hybrid Thermol
Solar



Episod 3



Ôl-osod gyda PAS2035
a TrustMark

Digwyddiadau

RSAW Ôl-osod er mwyn Optimeiddio – Defnyddio Offer y Llwybr i Sero
Dydd Llun 5 Gorffennaf, 13:00 – 15:00



Ynglŷn â'r digwyddiad

Bydd y sesiwn hon yn trafod:

- Dechrau gydag arolwg da
- Pedwar C
- Nodyn atgoffa am yr Arolwg Cartref Cyfan
- Defnyddio'r egwyddorion cywir
- Beth yw Sero Net
- Marathon yn hytrach na sbrint
- Digarbon erbyn...
- Dull ar sail cynllunio cynnal a chadw
- Mapio taith ddatgarboneiddio cartref
- Beth yw Llwybr i Sero?
- Adeiladu'r Pasbort Adeilad

Siaradwyr

- **Colin King** Arweinydd Technegol - Ôl-osod ac Adeiladu, Sero
- **Alun Watkins** Rheolwr Prosiect, Sero
- **Andy Sutton** Cyd-sylfaenydd / Cyfarwyddwr Dylunio ac Arloesi, Sero

Cliciwch [yma](#) os hoffech chi ymuno â ni yn y digwyddiad!

Rydyn ni wedi bod yn y newyddion

Rydyn ni wedi cael ein trafod mewn sawl erthygl fawl cyfryngau'r diwydiant yn ddiweddar, sy'n amlygu nid yn unig pwysigrwydd prosiect Ôl-osod er mwyn Optimeiddio ond ei effaith bosibl hefyd.

Darllenwch erthygl lawn Cyfarwyddwr Arloesi a Dylunio Sero, Andy Sutton, ar gyfer [LABM](#) isod. Rydwn ni wedi cael ein trafod yn [Construction Manager](#) a [Business News Wales](#) hefyd.



Tai sero net

Sut mae gwneud hynny? Sut ydyn ni'n gwneud tai'r DU yn Sero Net?

Mae Andy Sutton, Cyd-sylfaenydd a Chyfarwyddwr Dylunio ac Arloesi yn Sero, yn amlinellu'r her sy'n wynebu gwleidyddion, cynghorau, RSLs, gwneuthurwyr polisi, contractwyr a chyflenwyr i ôl-osod ein stoc tai i gyflenwi datgarboneiddio gwirioneddol.

Mae angen i'n cartrefi newid. Cartrefi'r DU a'r gweithgareddau ynddyn nhw sy'n cynhyrchu tua 40% o'r holl allyriadau cenedlaethol.

Ar ben hynny, mae Deddf Newid Hinsawdd y DU 2008 (wedi'i estyn yn 2017) yn gwneud y gofyniad i ddatgarboneiddio yn rhwymedigaeth gyfreithiol, yn ogystal ag yn angenrhaidd moesol a moesegol: "Sero Net" yw'r gyfraith.

Prin y bydd cyfraddau adeiladu cartrefi newydd yn cyrraedd 200,000 mewn unrhyw flwyddyn, felly datgarboneiddio'r 29 miliwn o gartrefi sy'n bodoli'n barod yn y DU yw'r flaenoriaeth — ac mae'n broblem ôl-osod.

Ond mae problemau eraill — cyfarpar a dealltwriaeth wael, ychydig o gymhellion ariannol, cymhwysedd ac ansawdd gwael ynghyd â her datgarboneiddio'r

carbon ymgorfforedig yn y deunyddiau a'r broses ôl-osod.

Yn yr ychydig o erthyglau nesaf byddwn ni'n edrych yn fanylach ar y rhain, ond dechreuwn ni gyda'r cyfarpar sy'n asesu beth yn union yw Sero Net.

Dim diffiniad cyfreithiol



Er gwaethaf deddfwriaeth, nid oes gan y DU ddiffiniad statudol o Sero Net.

Mae dim diffiniad cyfreithiol manwl-gywir yn golygu dim dealltwriaeth briodol a dim cyfarpar na dull sydd wedi'u cytuno am fesur beth yw sero carbon net — yn anffodus, mae'n golygu hefyd rwydd hynt i unrhyw honiadau i fod yn “wyrdd” ac yn “ddigarbon”.

Daw'r diffiniad pennaf oddi wrth y UK Green Building Council (UKGBC), sy'n cydnabod y dylai pob allyriad carbon o ddefnydd ynni a deiliadaeth cartref gael ei ystyried yn rhan o ôl-troed y cartref hwnnw.

Nid yw hyn yn cyd-fynd â chyfarpar rheoleiddio a chynlluniau ardystio presennol y DU. Yr un pwysicaf o'r rhain yw 'Gweithdrefn Asesu Safonol' (SAP) y Rheoliadau Adeiladu, ac

yn achos ôl-osod ei frawd bach RdSAP (Gweithdrefn Asesu Safonol data is).

Dyma'r mecanwaith statudol sy'n cael ei ddefnyddio i gadarnhau bod perfformiad ynni adeiladau uwchlaw isafswm lefel dybiannol.

Rhaid bod gan bob cartref yn y DU sgôr SAP a Thystysrif Perfformiad Ynni (EPC) ganlyniadol — ond nid dyma'r dull cywir i asesu Sero Net.

Mae SAP yn defnyddio metreg ynni i asesu gofynion am wregosi gofod ac anghenion dŵr poeth, gan drosi i garbon dim ond fel allbwn blynyddol ar sail ffactor carbon cyfartalog blynyddol hanesyddol.

Ond mae'n ddall i ddatgarboneiddio'r grid ynni cenedlaethol sy'n mynd yn ei flaen, ac yn anwybyddu'r gwahaniaethau yn y carbon sy'n cael ei allyrru yn dibynnu ar

pryd mae'r trydan yn cael ei ddefnyddio.

Am yr un rheswm, mae dull SAP o normaleiddio hinsawdd a deiliadaeth, sy'n briodol i asesu cydymffurfedd deddfwriaethol ag isafswm lefel perfformiad, yn anghywir i ragamcanu unrhyw achosion unigol.

Dyna pam mae'r cyngor ar gefn EPC mor enwog o wael — mae'n cyfateb ym maes ôl-osod i gyfartaleddu cyngor

dietegol a maethol cymhleth i lawr i “an apple a day keeps the doctor away”.

Mae SAP yn anwybyddu'r defnydd ynni anreoleiddiedig sy'n cael ei blygio i mewn gan y deiliaid, sef tua thraean o'r ynni sy'n cael ei ddefnyddio mewn cartref modern.

Nid yw diffiniad UKGBC o Sero Net, ac amgylchfyd ein planed, yn hepgor effaith ynni anreoleiddiedig.

Arbedion carbon

Mae defnyddio'r cyfarpar anghywir am y dasg yn arwain at ganlyniadau gwael.

Mae'n golygu bod ffotofoltäeg sy'n mynnu gosod capasiti ar y grid pan nad oes ei angen yn sgorio pwyntiau SAP i chi, ond chewch chi ddim byd am fatriâu sy'n helpu i gydbwysu'r grid.


Mae'n golygu dweud wrth barau athletig, sy'n gwisgo'n gynnes, am wario miloedd ar

inswleiddio a fydd mewn gwirionedd yn arbed gramau o garbon (a cheiniogau) iddyn nhw, nid ar wresogi tanc dŵr poeth mawr dros nos a allai arbed cilogramau (a phunnoedd) iddyn nhw.

Ac mae'n golygu bod gweithgynhyrchwyr yn canolbwyntio ar bwyntiau nid carbon – bod cynhyrchion yn honni 'cyflawni 2 bwynt SAP' ond anaml iawn y bydd y rhain yn cyflenwi arbedion carbon gwirioneddol.

Nid yw hyn yn gyfystyr â dweud bod SAP ac rdSAP yn gyfarpar gwael, yn wir maen nhw'n rhai da iawn am beth cawsan nhw eu dylunio i'w wneud.

Ond fasech chi ddim yn defnyddio morthwyl i osod sgriw: efallai bod SAP yn taro nod isafswm cydymffurfedd ynni, ond pa gymorth a rydd hynny i ni wrth geisio ei ddefnyddio i gyflenwi Sero Net?



Hoffen ni Glywed Gennych Chi!

Os hoffech chi ddysgu mwy am y Rhaglen Optimeiddio, gallwch gael yr wybodaeth ddiweddaraf neu gysylltu â ni yn y ffyrdd canlynol:

Ewch i: [Optimised Retrofit – Sero Group](#)

E-bost: optimisedretrofit@sero.life

Dilynwch ni ar Twitter: [@OptimisedR](#)

Dilynwch ni ar LinkedIn: [Optimised Retrofit](#)

